

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Eveswell Suite (Kensington Court
Clinic) / Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 3 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisiau deintyddol	23
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatruswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Eveswell Suite (rhan o Kensington Court Clinic) yn 197 Heol Casgwent, Casnewydd, NP19 8GH.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod Eveswell Suite yn bodloni'r safonau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod ganddo ystod o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Lle'r oeddem yn nodi materion a oedd yn gofyn am sylw ar unwaith mewn perthynas â chyffuriau ac offer brys a'r trefniadau ar gyfer rhoi imiwneiddiadau hepatitis B i staff, gwnaeth rheolwr y practis ddatrys y rhain yn brydlon ar ddiwrnod yr arolygiad.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Arddangoswyd proses drwyadl gan y staff ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a'r cleifion
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod uwch-aelodau staff y practis a'r tîm ehangach yn eu cefnogi

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwirio a chofnodi cyffuriau ac offer brys yn fwy rheolaidd yn unol â chanllawiau cenedlaethol, a chydymffurfio â graddfeydd amser a argymhellir ar gyfer hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd staff
- Dylai'r practis wneud trefniadau ar gyfer adolygiad cymheiriaid clinigol a chyflwyno ystod ehangach o archwiliadau clinigol ac anghlinigol
- Roedd angen i ddeintyddion wella agweddau ar gadw cofnodion cleifion

- Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael gfael ar gofnodion sy'n ymwneud ag imiwneiddio staff rhag hepatitis B ac yn eu cadw

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Eveswell Suite yn rhan o Kensington Court Clinic. Mae'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig. Mae ysbyty (deintyddol) annibynnol wedi'i leoli yn yr un adeilad. At ddiibenion yr arolygiad hwn, dim ond y gwasanaethau a ddarperir yn Eveswell Suite oedd yn cael eu hystyried.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, tri aelod o staff derbynfa a rheolwr y practis.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaethom arsylwi bod staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, proffesiynol a chwrtais. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal a'r driniaeth sy'n cael eu darparu iddynt gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Cafodd cyfanswm o 20 o holiaduron eu cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rwy'n gwbl fodlon."

"Efallai cyfleusterau parcio ychwanegol. Popeth arall yn foddhaol iawn."

Cadw'n iach

Gwelsom fod y practis yn arddangos amrywiaeth o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Roedd hyn i helpu hyrwyddo'r manteision i gleifion o ran gofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda hwy sut y gallent gadw eu ceg a'u dannedd mewn cyflwr iach.

Gofal ag urddas

Sylwom fod y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar, barchus a phroffesiynol. Yn ôl pob golwg, roedd y staff yn dîm cyfeillgar a gwelsom ryngweithiadau cwrtais gyda chleifion. Yn ddieithriad, cytunodd pob claf ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y practis y gallai cleifion siarad â'r tîm deintyddol yn breifat ac i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaeth yn cael ei harddangos yn y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei wneud yn eglur iddynt cyn iddynt dderbyn y driniaeth, ac roeddent yn cytuno eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion a lenwodd yr holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Roedd hyn yn golygu fod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys i'r graddau a ddymument mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ni ddywedodd unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ond dywedodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn yr iaith a ddymument.

Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses a ddefnyddir i roi gwybod i'r cleifion mewn da bryd am unrhyw oedi neu ohirio apwyntiadau.

Dywedodd tri chwarter y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol tu allan i oriau. Darperid y rhif cyswllt ffôn at ddefnydd cleifion y tu allan i oriau ar beiriant ateb y practis. Arddangosid y rhif hwnnw hefyd ar ddrws y fynedfa, fel bod modd i gleifion gael mynediad at ofal deintyddol mewn argyfwng.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd mwyafrif helaeth o'r cleifion a lenwodd holiadur yn cadarnhau bod eu deintydd yn eu holi ynglŷn â'u hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth fod cynllunio triniaeth ac opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a'u darparu i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u gofal.

Hawliau pobl

Sylwom fod y practis wedi mabwysiadu polisi penodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Golygai hynny fod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r un cyfleoedd ac i'r un driniaeth deg.

Roedd y practis yn rhan o Kensington Court Clinic ac wedi'i leoli ar ail lawr yr adeilad. Byddai cleifion na fyddent yn gallu defnyddio grisiau yn cael cynnig apwyntiad yn yr ysbyty (deintyddol) annibynnol, sydd hefyd yn rhan o Kensington Court Clinic, wedi'i leoli ar lawr gwaelod yr adeilad.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ar sut i godi pryder (cwyn) yn cael ei harddangos yn y dderbynfa ac yn cael ei chynnwys ar wefan y practis. Fodd bynnag, dywedodd chwech o gleifion oedd wedi cwblhau holiadur wrthym nad oedden nhw'n gwybod sut i wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol roeddent yn eu derbyn. Efallai y bydd y practis yn dymuno ystyried sut y gallant wneud cleifion yn fwy ymwybodol o'r broses hon.

Er nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion, canfuom fod system addas ar waith i gofnodi a mynd i'r afael â chwynion ar lafar ac yn ysgrifenedig pe baent yn cael eu derbyn.

Yn ddiweddar, roedd y practis wedi cyflwyno holiadur i gleifion sy'n caniatáu iddyn nhw roi adborth ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Roedd copïau ar gael yn ardal y dderbynfa i gleifion eu cwblhau. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn bwriadu casglu'r wybodaeth yn rheolaidd i asesu adborth cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelwyd bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Roedd angen cyffuriau a chyfarpar newydd yn y pecyn cyffuriau brys ac roedd angen gwiriadau mwy rheolaidd ar gyffuriau ac offer brys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol.

Cafodd y practis ei atgoffa o'r amserlenni ar gyfer cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd i'r holl staff.

Cafodd proses ar gyfer adolygiad cymheiriaid clinigol ei hargymell.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i ddiogelu diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis yn cael ei gynnal a chadw yn dda y tu mewn a'r tu allan, a bod yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion oedd wedi cwblhau holiadur o'r farn fod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Er inni weld bod yr ystafell driniaeth yn lân a thaclus, canfuom fod bylchau rhwng llawr yr ystafell a'r byrddau sgyrtin, a allai atal glanhau trylwyr. Rhaid i'r

practis sicrhau bod y llawr wedi'i selio'n briodol er mwyn atal dŵr, llwch a malurion rhag cronni yn y rhan o loriau'r ystafell driniaeth sydd heb ei selio. Cytunodd y practis i roi sylw i'r mater hwn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y practis a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal o fewn y 12 mis diwethaf, sy'n helpu i sicrhau'r defnydd diogel o offer trydanol bach sy'n cael eu defnyddio yn y practis.

Gwelsom fod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n briodol a bod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus sy'n cael ei gynhyrchu gan y practis.

Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu. Gwelsom fod data a gwybodaeth briodol ar gael ynglŷn â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a bod sylweddau COSHH yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr wedi'i selio'n briodol er mwyn atal dŵr, llwch a malurion rhag cronni yn y rhan o'r llawr yn yr ystafell driniaeth sydd heb ei selio.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodedig a oedd ar y cyfan yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen bolisi ac arweiniad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).¹ Gwnaethom argymhell y dylai'r practis nodi llif y broses yn eglur – hynny yw, offerynnau budr i offerynnau glân, o fewn yr ystafell ddadheintio. Gwelsom fod

¹ Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

yr arwyddion priodol yn cael eu creu a'u harddangos yn yr ystafell ddadheintio ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf² a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol a llyfr log yn cael eu cynnal, fel yr argymhellwyd gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, o brofion ar offer glanhau a sterileiddio i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangoswyd proses ddadheintio drylwyr gan staff a gwelsom dystysgrifau'n dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau i helpu i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwyp). Fodd bynnag, gwnaethom ddarganfod bod rhai o'r cyffuriau a'r offer wedi mynd heibio'u dyddiadau dod i ben ac nad oedd un darn o offer, uned sugno gludadwy, wedi'i gynnwys yn y pecyn. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad a chafodd cyffuriau ac offer newydd eu trefnu ar gyfer y rhai oedd wedi mynd heibio'u dyddiad dod i ben ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gynnal gwiriadau rheolaidd ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn unol â'r safonau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.³ Cytunodd y practis i wneud hyn.

Canfuom fod y cyffuriau a'r cyfarpar argyfwng yn cael eu storio mewn modd anhrefnus, gan greu'r posibiladau y bydd offer a chyffuriau yn cael eu camleoli.

² Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau, drwy'u trin ag ager dirlawn ar bwysedd uchel.

³ Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

Gwnaethom argymhell i'r practis efallai y byddant am ystyried trefnu eu cyffuriau a chyfarpar brys mewn ffordd fwy systematig i hwyluso mynediad rhag ofn y bydd eu hangen. Cytunodd y practis i drefnu hynny.

Roeddem yn gallu gweld cofnodion i ddangos bod y rhan fwyaf o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd y tystysgrifau ar gyfer rhai staff anghlinigol ac un aelod o staff clinigol wedi mynd heibio'u dyddiad. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd wedi'i drefnu cyn yr arolygiad i'r holl staff ei fynychu ym mis Hydref 2017. Cafodd y practis ei atgoffa o ganllawiau Cyngor Dadebru'r DU ynghylch terfynau amser ar gyfer hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau:

- bod pecyn brys llawn ar gael yn y practis bob amser, a
- bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyffuriau ac offer brys,

yn unol â'r safonau ansawdd a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU.

Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar gyfer yr holl staff yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwnaethom argymhell y dylai'r polisi diogelu oedolion gael ei ddiweddarau i gynnwys manylion cyswllt y tîm perthnasol yn y cyngor lleol. Cytunodd y practis i drefnu hynny.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod mwyafrif y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrif ar gyfer un aelod o staff. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant sy'n cael ei argymhell yn fawr gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu priodol yn y cyngor lleol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol yn unol

ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â'r defnydd diogel o'r offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi'n dangos bod y deintyddion a'r rhan fwyaf o'r staff clinigol yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Canfuom fod un dystysgrif wedi mynd heibio'i dyddiad ond cawsom ein hysbysu gan reolwr y practis fod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau'n ddiweddar iawn a'u bod yn aros am dystysgrif.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y practis yn cynnal ystod gyfyngedig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r triniaethau sy'n cael eu darparu i gleifion. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ehangu'r ystod o archwiliadau clinigol ac anghlinigol fel rhan o'i weithgaredd gwella ansawdd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu ystod o archwiliadau clinigol ac anghlinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgaredd gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd gan y practis broses ar waith ar gyfer adolygu gan gymheiriaid,⁴ a allai fod o gymorth i'r staff wrth ddatblygu a gwella eu hymarfer. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis weithredu proses ar gyfer adolygu gan gymheiriaid fel ffordd o nodi meysydd y gellid eu gwella. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer adolygu gan gymheiriaid clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u cynnal a'u cadw ar ffurf papur ac yn electronig, a chanfuom fod prosesau addas ar waith i sicrhau bod diogelwch gwybodaeth yn cael ei gynnal.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Canfuom fod meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn ddigon manwl a chyson rhwng ymarferwyr. Roeddent fel a ganlyn:

- Canfuom nad oedd y deintydd wedi cydlofnodi hanesion meddygol yn gyson, ac nid oedd hanesion meddygol diweddar yn cael eu ceisio'n gyson yn ystod pob rhan o'r driniaeth
- Nid oedd Archwiliadau Periodontol Sylfaenol na'u canlyniadau yn cael eu cofnodi'n gyson
- Nid oedd archwiliadau o feinwe meddal (y tu fewn a'r tu allan i'r geg) yn cael eu cofnodi'n gyson

⁴ Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o'r "safonau aur" yn y maes gwyddonol, sef proses sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ("cymheiriaid") werthuso ansawdd gwaith gweithwyr proffesiynol eraill. Gwneir hyn gyda'r nod o sicrhau bod eu hymarfer yn drylwyr ac yn manteisio ar ymchwil flaenorol gyda'r bwriad o ddarparu'r gofal a thriniaethau gorau posibl.

- Nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o unrhyw gyngor rhoi'r gorau i ysmegu a ddarparwyd i'r cleifion hynny a oedd wedi cadarnhau eu bod yn ysmygwyr

Cafodd y canfyddiadau eu trafod gyda'r practis mewn manylder a gwnaethom argymhell y dylent weithredu archwiliad cerdyn cofnod cleifion fel rhan o'u rhaglen monitro ansawdd gyffredinol.

Yn ogystal â hyn, nid oedd y rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintydd a gafwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sydd wedi'u cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gymryd delweddau pelydr-X a'u canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith gan y practis sy'n sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwmo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod ystod o bolisiau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, sydd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Dyweddod y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddi, a chyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Gwnaethom argymhell fod y practis yn sicrhau ei fod yn cael ac yn cadw cadarnhad o bob imiwneiddiad staff rhag hepatitis B.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Eveswell Suite yn rhan o Kensington Court Clinic, sydd hefyd yn cynnwys ysbyty (deintyddol) annibynnol. Mae Eveswell Suite a'r ysbyty wedi'u lleoli yn yr un adeilad. Roedd ein harolygiad yn ystyried y gwasanaeth a ddarperir yn Eveswell Suite yn unig.

Mae gan reolwr y practis gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli Eveswell Suite o ddydd i ddydd ac mae'n cael ei chefnogi gan dîm sefydledig o staff clinigol ac anghlinigol. Roedd y staff yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau a, lle'r oeddem yn nodi meysydd i'w gwella, roedd rheolwr y practis yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Dyweddwyd wrthym, gan y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, y teimlent eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan bob aelod o dîm y practis. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod cyfathrebu yn y

practis yn dda. Gwelsom fod cyfarfodydd dyddiol yn cael eu cynnal bob bore a bod gofyn i'r holl staff fynychu'r rhain; dywedodd y staff eu bod yn gweld y cyfarfodydd hyn yn fuddiol iawn. Gwelsom hefyd fod cyfarfodydd mwy ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y practis a bod cofnodion yn cael eu cynhyrchu a'u rhannu gyda'r staff hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Gwelsom fod ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth staff hefyd gadarnhau eu bod yn derbyn cefnogaeth ac anogaeth gan y tîm rheoli i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi.

Canfuom fod proses ar waith i staff dderbyn arfarniad o'u perfformiad yn rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o arfarniadau oedd wedi cael eu cynnal.

Sylwom fod y deintyddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer a bod yswiriant indemniad wedi ei drefnu.

Roedd cofnodion ar gael i ddangos bod y mwyafrif o staff wedi derbyn imiwneiddiadau rhag hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain rhag heintiau. Nid oeddem yn gallu gweld cofnodion ar gyfer un aelod o staff. Gwnaethom ddwyn hyn at sylw rheolwr y practis ar ddiwrnod yr arolygiad a dywedwyd wrthym nad oedd wedi gallu cael cofnodion gan feddyg teulu'r unigolyn yn cadarnhau bod imiwneiddiad wedi'i roi. Ar ddiwrnod yr arolygiad, trefnodd yr unigolyn i fynychu'r apwyntiad nesaf sydd ar gael gydag iechyd galwedigaethol i brofi ei imiwnedd i hepatitis B.

Roedd y deintydd sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod ei dystysgrif gofrestru gan AGIC yn cael ei harddangos yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn mynnu bod gan bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i chyhoeddi o fewn y tair blynedd ddiwethaf. Canfuom fod y tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion y tu allan i'r cyfyngiad amser hwn a bod angen eu hadnewyddu. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi'u himiwneiddio rhag hepatitis B a bod ganddynt gofnodion priodol i ddangos hyn.

Rhaid i'r deintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fod â thystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhaid iddo sicrhau ei bod ar gael i'w harolygu gan AGIC.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#)>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <<https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>>.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau gofal iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwyp). Er hyn, canfuom fod rhai o'r cyffuriau a'r offer wedi mynd heibio'u dyddiadau dod i ben ac nid oedd un darn o offer, sef offer sugno cludadwy, wedi'i gynnwys yn y pecyn.	Golygai hyn, pe bai argyfwng mewn perthynas â chlaf, efallai na fyddai'r practis yn gallu ymateb yn briodol, a allai roi cleifion mewn perygl.	Gwnaethom ddwyn hyn at sylw rheolwr y practis, gan ofyn bod eitemau newydd yn cael eu rhoi yn lle offer coll a chyffuriau ac offer sydd wedi mynd heibio'u dyddiad dod i ben.	Gwnaeth rheolwr y practis drefniadau ar ddiwrnod yr arolygiad i'r cyffuriau a'r offer a oedd ar goll neu wedi mynd heibio'u dyddiad gael eu hamnewid.
Nid oeddem yn gallu gweld cofnodion ar gyfer un aelod o staff ynghylch imiwneiddio rhag hepatitis B.	Roedd hyn yn golygu nad oedd y practis yn gallu dangos bod yr holl staff wedi derbyn imiwneiddiadau rhag hepatitis B i ddiogelu cleifion a'u hunain rhag heintiad.	Rhoddwyd gwybod i reolwr y practis am hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.	Gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau bod apwyntiad wedi'i wneud gydag iechyd galwedigaethol i'r unigolyn gael ei brofi am ei imiwneiddio i hepatitis B.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:Eveswell Suite (Kensington Court Clinic)

Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Eveswell Suite (Kensington Court Clinic)

Dyddiad yr arolygiad: 2 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw welliannau yn yr arolygiad hwn.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr wedi'i selio'n briodol er mwyn atal dŵr, llwch a malurion rhag cronni yn y rhan o'r llawr yn yr ystafell driniaeth sydd heb ei selio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliadau 14	Mae'r llawr wedi'i selio'n briodol.	Rheolwr y clinig	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(1) (b) ac 14 (1) (d) Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Diwygiad 1			
<p>Rhaid i'r practis sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod pecyn brys llawn ar gael yn y practis bob amser, • bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyffuriau ac offer brys, <p>yn unol â'r safonau ansawdd a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14 (2) ac 14 (3) (b)</p>	<p>Mae'r pecyn brys wedi'i ddiwygio gan ddilyn canllawiau Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer "Cyffuriau Brys ar gyfer Practisau Deintyddol".</p> <p>Mae cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys.</p>	<p>Rheolwr y clinig</p>	<p>Cwblhawyd 04/10/17</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar gyfer yr holl staff yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p>	<p>Ymgwymerodd y deintyddion, y staff clinigol a'r derbynyddion â hyfforddiant dadebru cardo-pwlmonaidd mewnol ar ddydd Mawrth, 24 Hydref.</p>	<p>Rheolwr y clinig</p>	<p>Cwblhawyd 24/10/17</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 14 (2) ac 14 (3) (b)			
Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu priodol yn y cyngor lleol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14 (1) (b)	Mae rhestr gylchredeg y bwrdd iechyd lleol, sy'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu priodol, wedi'i chynnwys yn awr gyda'r polisi diogelu.	Rheolwr y clinig	Cwblhawyd 09/10/17
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14 (1) (b) a (2)	Mae hyfforddiant priodol bellach wedi'i gwblhau i sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Rheolwr y clinig	Cwblhawyd 24/10/17
Dylai'r practis weithredu ystod o archwiliadau clinigol ac anghlinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgaredd	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Mae'r clinig eisoes yn cynnal nifer o archwiliadau parhaus ledled y clinig ond byddwn yn:	Rheolwr y clinig	Yn parhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol.	2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliadau 14 (1) (b) ac 14 (2)	1. Nodi'r meysydd sydd angen eu gwella 2. Cynnal archwiliadau angenrheidiol pellach 3. Gweithredu cynllun ar gyfer gwella lle bo angen		
Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer adolygu gan gymheiriaid clinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliadau 14 (1) (b) ac 14 (2)	Bydd y broses adolygu gan gymheiriaid clinigol yn cael ei chychwyn gyda chyfarfod gyda staff clinigol.	Rheolwr y clinig	Tachwedd 2017
Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sydd wedi'u cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14	Gweler yr adran ar archwilio.	Rheolwr y clinig	Yn parhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(1) (b)			
<p>Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gymryd delweddau pelydr-X a'u canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14 (1) (b)</p>	<p>Gweler yr adran ar archwilio.</p>	<p>Rheolwr y clinig</p>	<p>Yn parhau</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff wedi'u himiwneiddio rhag hepatitis B a bod ganddynt gofnodion priodol i ddangos hyn.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliadau 14 (1) (b), 14 (2) a 15 (5)</p>	<p>Mae cofnodion priodol yn cael eu cadw yn swyddfa'r rheolwr i ddangos bod yr holl staff wedi cael eu himiwneiddio rhag hepatitis B.</p>	<p>Rheolwr y clinig</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid i'r deintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Cynhelir gwiriadau blaenorol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar</p>	<p>Rheolwr y clinig</p>	<p>Yn aros am dystysgrifau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwasanaethau deintyddol preifat fod â thystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhaid iddo sicrhau ei bod ar gael i'w harolygu gan AGIC.	Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 5 (2) (j)	gyfer yr holl staff gan y rheolwr. Fodd bynnag, mae ceisiadau ar gyfer y ddau ddeintydd wedi cael eu hanfon fel y gofynnwyd amdanynt yn dilyn canllawiau newydd.		newydd.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Heather Larcombe

Swydd: Rheolwr y clinig

Dyddiad: 25.10.17